



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

LLAWLYFR MODWL

ECDE7013C

**Archwilio Materion Cyfoes mewn Addysg 2:
*cymhwyso sgiliau beirniadol, cyfrannu at
wybodaeth: arwain gwelliant***

Doethuriaeth mewn Addysg (Ed D)

LEFEL 7

Yr Athrofa

Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau

2019-2020

Tîm y Modwl

Dr Jane Waters <i>Arweinydd y modwl a'r pwynt cyswllt cyntaf</i>	jane.waters@uwtsd.ac.uk
Dr Sioned Hughes <i>Cymorth tiwtorial cyfrwng Cymraeg i'r modwl</i>	s.v.hughes@uwtsd.ac.uk
Dr Alex Southern	a.southern@uwtsd.ac.uk
Dr Jan Barnes	janine.barnes@uwtsd.ac.uk
Dr Angella Cooze	angella.cooze@uwtsd.ac.uk

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl ac rydym yma i'ch helpu. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu, paratoi a chymryd rhan mewn sesiynau
- Bod yn hunangyfeiriol ac yn ddysgwyr annibynnol
- Rheoli eich amser a'ch gwaith er mwyn bodloni dyddiadau terfyn aseiniadau

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau. Mae'r rhain ar gael ar MyDay.

Dylid cyflwyno pob aseiniad ysgrifenedig, ac eithrio papurau arholiad, yn electronig drwy TURNITIN.

Amcanion a Deilliannau'r Modwl

Mae'r modwl hwn yn adeiladu ar y modylau dulliau ymchwil ym mlwyddyn 1 a 2 y rhaglen Ed D. Mae'r modwl 60 credyd sy'n para am flwyddyn yn gyfle i ddylunio a gweithredu prosiect ymchwil cyflawn dros y flwyddyn academaidd. Y ffocws yn y modwl hwn yw datblygu sgiliau dadansoddi a syntheseiddio data, gan ddefnyddio data a gasglwyd mewn prosiect ymchwil byw.

AMCANION

- Cymhwyso sgiliau beirniadol i archwilio ac ymchwilio i lenyddiaeth ac arfer yn ymwneud â mater cyfoes yn y gweithle;
- Ymgymryd ag adolygiad llenyddiaeth systematig a phrosiect ymchwil ar raddfa fach yn y gweithle er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer ymchwil pellach neu ddatblygu arfer yn gysylltiedig â'r mater;
- Mynd i'r afael yn llawn â'r broses ymchwil, gan gynnwys y broses foseg.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Adnabod, cael gafael ar a syntheseiddio llenyddiaeth berthnasol yn ymwneud ag agwedd benodol ar arfer;
- Dynodi cwestiwn/cwestiynau ymchwil perthnasol yn ymwneud ag agweddau penodol ar arfer sydd wedi'u fframio'n glir ac yn hawdd eu trin;
- Cynllunio a gweithredu prosiect ymchwil ar raddfa fach o'i greu i'w gwblhau sy'n ymateb yn effeithiol i'r cwestiynau ymchwil;
- Adrodd yn briodol ar y prosiect ymchwil, oddi mewn i fframweithiau moesegol a fframweithiau ymchwil, gyda dealltwriaeth o ofynion meddwl yn feirniadol.

Dyddiadau Allweddol

ECDE7013C Archwilio Materion Cyfoes mewn Addysg 2: <i>cymhwyso sgiliau beirniadol, cyfrannu at wybodaeth: arwain gwelliant</i>	Diwrnod 1: 12-10-19	Wythnos 1 y modwl
	Diwrnod 2: 07-12-19	
	Diwrnod 3: 25-01-20 Elfen Asesu 1	
	Diwrnod 4: 25-04-20	
Diwedd y modwl a addysgir <i>yr wythnos dysgu/addysgu ar-lein ddiwethaf; cyfle diwethaf am gymorth tiwtorial</i>	11-06-20 opsiwn tiwtorial terfynol 09-07-20 gweminar derfynol	
Dyddiad terfyn yr asesiad	Elfen aseiniad 1: 25-01-20	
	Elfen aseiniad 2: 13-07-20	

CYNNWYS DANGOSOL

- Ymgymryd ag adolygiad llenyddiaeth priodol, gan ddarllen yn feirniadol;
- Dynodi bylchau o ran gwybodaeth a llunio cwestiwn/cwestiynau ymchwil i fynd i'r afael â'r bylchau hyn;
- Methodoleg a dylunio prosiect ymchwil;
- Dylunio a threialu offer ymchwil;
- Deall y materion moesegol penodol sy'n codi o ymchwilio i'w sefydliad eu hunain a chydweithwyr proffesiynol;
- Defnyddio ymchwil fel offeryn i ddatblygu eu harferion eu hunain a rhai eu cydweithwyr;
- Dadansoddi data gyda phwyslais ar ddehongli data a gasglwyd o gyd-destunau cyfarwydd;
- Gwerthuso'r broses yn feirniadol, gan gyfyngu ar honiadau;
- Arferion adrodd.

Manylion y Sesiynau

Mae gan y modwl hwn gyfanswm o 60 awr o ddysgu wedi'i amserlennu dros ddau semester a 540 awr o ddysgu annibynnol. Mae tri neu bedwar diwrnod (i'w cadarnhau ar y diwrnod cyntaf) pryd bydd cyfranogwyr a thîm y modwl yn gweithio gyda'i gilydd a rhaglen o weminarau / tiwtorialau rheolaidd sy'n cynnwys amser tiwtorial unigol y gellir ei fwcio a sesiynau trafod grŵp.

Fel arfer cynhelir y weminar/tiwtorial ar nos Iau rhwng 7-8.30pm.

Sesiwn	Dyddiad	Ffocws; darllen ymlaen llaw a gweithgarwch dilynol Mae testun sydd wedi'i liwddangos yn dynodi cyfarwyddyd ar gyfer ysgrifennu adroddiadau ymchwil	Arweinydd
1	12-10-19 Drwy'r dydd DIWRNOD 1	Darllen ymlaen llaw: Adolygwch y llenyddiaeth sy'n berthnasol i'ch maes diddordeb ar gyfer eich astudiaeth ymchwil Atgoffwch eich hun am benodau sy'n ymwneud ag ontoleg ac epistemoleg: - pennod 7 Flick 5/6^{ed} argraffiad - pennod 1 Cohen, Manion a Morrison 2011 neu hwyrach - pennod 1 Gray 2018 Tasg baratoi: Adolygwch eich cynnig am brosiect ymchwil a luniwyd ar ddiwedd blwyddyn 2. Ystyriwch y canlynol: - Ydy hwn yn brosiect yr hoffech fynd ag ef yn ei flaen? - Pa newidiadau gallech chi eu gwneud? - Os nad ydy, dynodwch faes o ddiddordeb ymchwil yr hoffech ei archwilio yn y flwyddyn i ddod. Os mai ymholiad yn gysylltiedig â'ch lleoliad gwaith yw hwn, mae'n debygol y bydd hyn o gymorth o ran rheoli amser. - Ystyriwch y cwestiwn: <i>pa fwlch yn y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth bydd eich ymchwil yn ei lenwi?</i>	Pawb: Hunan-astudio
		Cwestiynau Allweddol: - Beth yw'r bwlch/bylchau yn y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth y mae'r prosiect ymchwil yn ceisio ei lenwi? - Beth yw'r cwestiwn/cwestiynau ymchwil i fynd i'r afael â'r bylchau hyn? - Beth yw natur y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth sydd i'w chreu?	JW

		Dysgu allweddol yn y sesiwn hon: - Byddwn yn edrych eto ar yr angen i ymgymryd ag adolygiad llenyddiaeth priodol, ac os bydd y grŵp yn teimlo bod hynny'n ddefnyddiol byddwn yn treulio amser yn gwneud defnydd o'r llyfrgell; - Cydnabyddwn fod dadlau ynghylch rhywfaint o'r derminoleg gyffredin a bod angen ei diffinio at ein dibenion ymchwil; - Byddwn yn adolygu sut y deallwn y term 'darllen yn feirniadol' a pha ymddygiad gennym ni fel ymchwilwyr y mae hynny'n gofyn amdano; - Byddwn yn ceisio bod yn eglur ynghylch y bwlch/bylchau yn y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth y mae ein hymchwil yn ceisio ei lenwi; - Byddwn yn cynnal ffocws ar gydlynid yn ein dulliau o ran bwriadau a dyluniad ymchwil; - Ein nod yw bod wedi dylunio ein cwestiwn/cwestiynau ymchwil drafft erbyn diwedd y sesiwn; - Byddwn yn ystyried methodoleg prosiectau ymchwil fel y ffrâm y deallwn trwyddi'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud.
		Strwythur: Sesiwn drafod fydd hon yn bennaf, gyda chyfleoedd ar gyfer ymrannu'n unigolion a grwpiau bach, a thasgau. Mae bwriad i ddatblygu cymuned o gyfeillion beirniadol o fewn ac ar draws y grŵp. Bydd y gymuned hon yn cefnogi dealltwriaeth ac yn dwysáu ein sgiliau beirniadol, drwy geisio treiddio'n adeiladol i syniadaeth, dealltwriaeth a chydlynid syniadau ein gilydd.
		Meddwl/tasg ddilynol: - Sut byddwch chi'n ymateb i'ch cwestiynau ymchwil? - Ystyriwch eich dyluniad ymchwil a llunio cynllun prosiect drafft. - Dylai hwn gynnwys: • Eich cyfranogwyr • Eich offer ymchwil • Eich llinell amser - Drafftaiwch gyfiawnhad dros eich offer ymchwil; amlinellwch y penderfyniadau ymchwil a wnaethoch wrth ddewis yr offer hyn, gan gyfeirio at ymchwilwyr sy'n arbenigo yn y defnydd o'r offer hyn (a chan osgoi gorddibyniaeth ar y testunau ymchwil generig).
		Darllen/tasg ddilynol: - Adolygwch y llenyddiaeth sy'n berthnasol i'ch maes ymholi - Lluniwch fraslun o'ch adolygiad llenyddiaeth - gall hwn fod yn un ochr o A4 - gan sicrhau eich bod yn arwain y darllenydd tuag at ddynodi'n eglur y bwlch/bylchau yn y wybodaeth neu'r ddealltwriaeth rydych yn ceisio ei lenwi. - Bydd adeiladu'ch adolygiad llenyddiaeth o wythnos un ymlaen yn eich helpu'n sylweddol gyda'ch prosiect ymchwil ac ysgrifennu

		adroddiadau. - Dylech anelu at gael drafft cyflawn o'ch adolygiad llenyddiaeth erbyn diwedd Tachwedd.	
2	24-10-19 7-8.30pm	Tasg baratoi: Llenwch eich ffurflen foeseg ar gyfer eich prosiect ymchwil arfaethedig. Nodwch unrhyw rannau o'r ffurflen y mae arnoch angen mewnbwn neu gyngor gan eich cyd-fyfyrwyr / tiwtor ar eu cyfer; ac unrhyw rannau i'w trafod.	
		Sesiwn ar-lein a rennir: Mae Alex ar gael heno am drafodaeth a chynghor er mwyn i chi gwblhau'ch cynigion moeseg erbyn DECHRAU Tachwedd ar yr hwyraf. Bydd gwrando ar anawsterau'ch cyd-fyfyrwyr yn dwysáu'ch dealltwriaeth o'r anawsterau moesegol amrywiol a all godi mewn ymchwil yn gysylltiedig ag addysg. <i>Er mwyn bodloni dyddiad yr e-gylch moeseg o ddewis, rhaid cyflwyno'ch cynnig erbyn 13 Tachwedd. Mae hyn yn gofyn am gymeradwyaeth gan arweinydd y modwl felly bydd angen i chi gyflwyno'r cynnig i AS a JW erbyn 6 Tachwedd.</i> <i>Mae dyddiadau'r e-gylchoedd moeseg isod er gwybodaeth.</i>	AS
3	14-11-19 7-8.30pm	Dynodi ein bylchau... Cewch 4 munud i gyflwyno neu siarad drwy'r brif lenyddiaeth sy'n berthnasol i'ch maes ymholi ac i arwain y gynulleidfa i ddeall y 'bwllch' y mae'ch ymchwil yn ceisio ei lenwi. Gallwch siarad gyda nodiadau neu hebddynt, neu gyflwyno drwy dudalen y weminar. Meddyliwch am 'y twndis' - gallwch drefnu'ch trosolwg fel a ganlyn: - Gwaith arloesol (<i>beth sy'n hysbys?</i>) - Datblygiad neu feirniadaeth ar y gwaith arloesol (<i>beth y mae dadlau yn ei gylch?</i>) - Gwaith diweddar, lleol neu gysylltiedig (<i>beth rydym yn ei wybod mewn cyd-destunau tebyg / yn ein cyd-destunau ni?</i>) - Rhannau o'r maes sy'n parhau'n anhysbys neu heb gael eu harchwilio'n gadarn hyd yn hyn; neu gyd-destunau lle nad oes fawr ddim gwaith empirig wedi'i wneud (<i>ble mae'r bylchau yn y maes hwn?</i>) - Y bwllch y mae'ch ymholiad yn ceisio ei lenwi a pham... I grynhoi dylai'ch trosolwg ddweud wrthym: pam yr ymholiad hwn a pham nawr?	I gyd ar-lein JW

4	28-11-19 7-8.30pm	Tasg baratoi: Darllenwch o leiaf un o'r canlynol: • Pennod 13 Sampling yn Uwe Flick (5^{ed} argraffiad neu hwyrach) • Pennod 9 Sampling strategies yn Gray (3^{ydd} neu 4^{ydd} argraffiad) • Pennod 8 Sampling yn Cohen, Manion a Morrison (7^{fed} argraffiad neu hwyrach) Paratowch i gyflwyno'r rhesymwaith dros eich strategaeth samplu'ch hun. Ystyriwch resymwaith (dynodwch y penderfyniadau ymchwil rydych wedi'u gwneud ac esbonio pam y'u gwnaethoch) a chyfyngiadau'ch sampl. A oes unrhyw faterion moesegol yn gysylltiedig yn benodol â'ch sampl? Sesiwn ar-lein a rennir: Byddwn yn ystyried yn feirniadol oblygiadau'r penderfyniadau samplu rydych yn eu gwneud yn y drafodaeth hon. Byddwch yn barod i ymgysylltu â'ch gilydd fel cydweithwyr sy'n feirniadol mewn modd adeiladol ☺.	
5	07-12-19 Drwy'r dydd DIWRNO D 2	Darllen ymlaen llaw Darllenwch yn fanwl bennod 7 Uwe Flick (darparwyd); - Ystyriwch yn ofalus y ddealltwriaeth o'r byd rydych chi'n ei dwyn i'ch prosiect ymchwil a cheisio mynegi sut mae'n fframio'r astudiaeth. Darllenwch naill ai bennod 6 (MEINTIOL) neu 7 (ANSODDOL) o fewn adran Gray ar ddylunio ymchwil. Tasg baratoi Drafftioch fraslun diagramatig o'ch dyluniad ymchwil. Gallai hwn fod ar ffurf diagram llif, llinell amser neu dabl. Dylai ddangos gweithgarwch ymchwil y prosiect a, phan fo angen, dylai nodi ble y mae dibyniaeth (er enghraifft, pan fydd canlyniadau arolwg yn llywio dyluniad cwestiynau ar gyfer cyfweliad). Ceisiwch roi hyn ar sleid PPT er mwyn ei gyflwyno i gydweithwyr. Ystyriwch eich ffrâm ddamcaniaethol. Pa ddealltwriaeth sy'n fframio/arwain dyluniad a bwriadau'ch prosiect? - Allwch chi ymateb i gwestiynau Flick ar dudalen 92?	Pawb: Hunan-astudio

	Cwestiynau Allweddol: - Beth yw methodoleg? - Sut mae'r ffrâm ddamcaniaethol yn llunio'r dadansoddiad o ddata? - Sut beth yw adroddiad ar y fethodoleg? - Treialu offer ymchwil - pam mynd i'r drafferth?	JW
	Dysgu allweddol yn y sesiwn hon: - Archwilio'r hyn a olygir wrth fethodoleg, dull, dylunio ymchwil a sut byddwn yn adrodd ar yr elfennau hyn o'r prosiect ymchwil. - Deall a lleoli'r ffrâm ddamcaniaethol a dadansoddol. Gweithgaredd: - <i>Dadansoddi'r hyn a welwn - enghraifft gan ddefnyddio fforddiant a damcaniaeth ôl-strwythurol (LUCAS 11 mis)</i> - <i>Dadansoddi'r hyn a ddarllenwn - enghraifft gan ddefnyddio dadansoddi cynnwys a damcaniaeth seiliedig (grounded theory) (trawsgrifad cyfweliad)</i> - Gweler hefyd grynodedau traethodau ymchwil (JW, AS, ARP, HL, AC)	JW ac AS
	Strwythur: Yn y sesiwn hon byddwch yn rhannu'ch gwaith paratoi â'ch gilydd ac yn cyfrannu at drafodaethau'n gysylltiedig â'r cwestiynau allweddol. Bydd rhywfaint o egluro ond bydd hyn yn gyfyngedig, a gallwch ddewis amser yn y llyfrgell neu weithio ar eich drafftiau'ch hun gyda chymorth cyd-fyfyrwyr a thiworiaid y modwl.	
	Meddwl/tasg ddilynol: Drafftioch eich pennod ar fethodoleg. Mae hyn yn cynnwys: - eich ffrâm ddamcaniaethol, - y dyluniad ymchwil a'r cyfiawnhad drosto, - yr offer ymchwil a'r cyfiawnhad drostynt, - eich dull o ran dadansoddi (eich ffrâm ddadansoddol) Ystyriwch pa weithgareddau treialu y bydd angen i chi ymgymryd â nhw a pha ddull y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer y rhain. Dynodwch amser yn eich calendrau a'ch llinell amser ymchwil. A oes angen i chi dreialu'ch dull ar gyfer dadansoddi hefyd?	
	Dylech anelu at lunio pennod ddrafft ar fethodoleg erbyn diwedd Ionawr.	
	Darllen dilynol: Argymhellir: Darllenwch y penodau ar Fethodoleg mewn traethodau PhD cyfredol; defnyddiwch y gadwrfa traethodau PhD https://ethos.bl.uk/Home.do Gray: adran ar ddylunio ymchwil pennod 6 (MEINTIOL) neu 7 (ANSODDOL).	

6	25/01/20 Drwy'r dydd DIWRNO D 3	Cyflwyniadau a asesir Asesiad Rhan 1 Cyflwyniad seminar unigol (25 munud yr un) Cyflwynwch ddyluniad eich prosiect ymchwil ar raddfa fach, cynigiwch gyfiawnhad beirniadol dros eich dewisiadau methodolegol, yr offer ymchwil a ddefnyddiwyd a'r prosesau moesegol a ddilynwyd. Dylech hefyd gynnwys braslun o'r dull arfaethedig ar gyfer dadansoddi data.	JW/ AS/ a thiwtoriaid Ed D eraill
Cyfnod o astudio annibynnol a thiwtorialau y gellir eu bwcio (gweler isod).		Ewch ati i gasglu'ch data cyn y Pasg	
7, 8, 9, 10,	Tiwtorialau i'w bwcio 06-02-20 20-02-20 05-03-20 19-03-20	Sesiynau tiwtorial: Fe'ch anogir i rannu'ch prosiectau gyda'ch gilydd wrth iddynt ddatblygu ac i weithredu'n gyfaill beirniadol i'ch gilydd. Mae modd bwcio sesiynau tiwtorial yr wythnosau hyn drwy e-bost at y tiwtoriaid modwl. Defnyddiwch y tiwtorialau hyn ar un achlysur O LEIAF er mwyn trafod cynnydd eich prosiect. Disgwylir y byddwch wedi cwblhau casglu'ch data erbyn diwedd y cyfnod hwn o waith unigol / cymorth drwy diwtorial.	Gyda thîm y modwl
11	25-04-20 Drwy'r dydd DIWRNOD 4	Tasg baratoi: Paratowch eich set ddata er mwyn ei chael yn barod i'w dadansoddi (allforio data meintiol i fformat addas; trawsgrifio cyfweliadau/grwpiau ffocws; ...) <u>Cychwynnwch</u> eich gwaith dadansoddi - defnyddiwch y ffrâm ddadansoddol rydych wedi'i dynodi. Paratowch ddiweddariad cryno i'ch cyd-fyfyrwyr ar sut mae'n mynd; paratowch gwestiynau os hoffech gael eu cyngor / barn / sylwadau. Cwestiynau allweddol: - Beth mae fy nata yn ei ddweud wrthyf? - Pa benderfyniadau ymchwil rydw i'n eu gwneud wrth ddadansoddi fy nata, a beth yw goblygiadau a chyfyngiadau'r penderfyniadau hyn? - Pa warant sydd gennyf ar gyfer cryfder fy nghanfyddiadau? - Beth fyddai f'ymatebion i'm cwestiynau ymchwil? Dysgu allweddol:	Pawb: Hunan-astudio

		- Mae dadansoddi data'n golygu gwneud penderfyniadau ymchwil - Mae dadansoddi data mewn modd cadarn yn systematig, yn drylwyr a dylai fod modd ei esbonio'n hawdd - Mae'ch dull o ddadansoddi data'n fframio'r hyn a ganfyddir a bydd ganddo amryw o oblygiadau a chyfyngiadau - Mae cydnabod y cyfyngiadau sydd ynghlwm â'r warant ar gyfer eich honiadau'n rhan o fod yn ymchwilydd cadarn. Strwythur: Bydd y sesiwn hon yn un ymarferol ar ei hyd. Byddwch yn cyflwyno'ch dadansoddiad o ddata fel gwaith sydd ar y gweill a chewch amser i wneud gwaith pellach gyda'ch set ddata yn ystod y sesiwn gyda chymorth cyd-fyfyrrwyr a thiworiaid y modwl. Drwy rannu'r dulliau dadansoddol amrywiol a ddefnyddir gan aelodau'r grŵp, dylech ddatblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'r amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael, y rhinweddau cymharol ar gyfer gwahanol fathau o ymholi a hefyd dylech greu dealltwriaeth fwy manwl o gyfyngiadau gweithgarwch ymchwil a'r warant y gallwn ei hawlio ar gyfer ein canfyddiadau. Tasgau dilynol: Cwblhewch eich proses ddadansoddi data a drafftio pennod eich canfyddiadau. Drafftioch bennod eich trafodaethau: Ystyriwch: - Beth hoffech ei ddadbacio ymhellach yn sgil eich astudiaeth? - Beth rydych wedi'i ddysgu mewn cysylltiad â'ch cwestiynau ymchwil? - Sut mae hyn yn berthnasol i'r maes a'r deunydd yn eich adolygiad llenyddiaeth? - Pa mor gadarn oedd eich ymchwil? Beth yw'r cyfyngiadau? - Sut mae'ch astudiaeth yn mynd i'r afael â'r 'bwlch' a ddynodwyd gennych? - Pa ymchwil pellach sydd ei angen? Darllen dilynol: Darllenwch yn unol â'ch offer ymchwil a'ch proses ddadansoddol.	
--	--	--	--

		Dylech geisio sicrhau eich bod yn darllen deunydd gan ymchwilyr sydd wedi defnyddio dulliau tebyg yn ogystal â deunyddiau mewn testunau ymchwil er mwyn ystyried yn fanwl oblygiadau eich penderfyniadau ymchwil/dadansoddi eich hun.	
12.13.14	Tiwtorialau i'w bwcio 14-05-20 28-05-20 11-06-20	Sesiynau tiwtorial: Fe'ch anogir i rannu'ch prosiectau gyda'ch gilydd wrth iddynt ddatblygu ac i weithredu'n gyfaill beirniadol i'ch gilydd. Mae modd bwcio sesiynau tiwtorial yr wythnosau hyn drwy e-bost at y tiwtoriaid modwl. Defnyddiwch y tiwtorialau hyn ar un achlysur O LEIAF er mwyn trafod cynnydd eich prosiect a'r gwaith ysgrifennu.	Gyda thiwtoriaid y modwl
15	09-07-20 Sesiwn ar-lein derfynol	Sesiwn i rannu a dathlu: Byddwn yn rhannu prif grynodedau'r prosiectau ymchwil (yr her 3 munud!) Amlinelliad o'r cam nesaf... Darperir amlinelliad o'r camau nesaf ar gyfer symud ymlaen i'r traethawd ymchwil, sesiwn holi ac ateb a'r camau nesaf	Pawb
Dyddiad terfyn asesiad: Rhan 2: 20-07-20			

Dyddiadau e-gylchoedd moeseg yn 2019-20:

Dylech anelu at yr e-gylch cyntaf posibl er mwyn i chi gael amser i wneud eich ymchwil AR ÔL i chi dderbyn cymeradwyaeth foesegol.

NI DDYLECH DDECHRAU CASGLU UNRHYW DDATA CYN CAEL CYMERADWYAETH FOESEGOL AR GYFER EICH GWEITHGARWCH YMCHWIL.

Papurau i Gyrraedd Erbyn	E-arolwg Ar Agor	Canlyniadau i'r Cadeirydd
2 Hydref 2019	9-14 Hydref 2019	16 Hydref 2019
13 Tachwedd 2019	20-25 Tachwedd 2019	27 Tachwedd 2019
1 Ionawr 2020	8-13 Ionawr 2020	15 Ionawr 2020
12 Chwefror 2020	19-24 Chwefror 2020	26 Chwefror 2020
25 Mawrth 2020	1-6 Ebrill 2020	8 Ebrill 2020
6 Mai 2020	13-18 Mai 2020	20 Mai 2020
10 Mehefin 2020	17-22 Mehefin 2020	24 Mehefin 2020

1 Gorffennaf 2020	8-13 Gorffennaf 2020	15 Gorffennaf 2020
29 Gorffennaf 2020	5-10 Awst 2020	12 Awst 2020

Manylion yr Asesu

Elfen Asesu 1 – 25%

DYDDIAD TERFYN: 25-01-20

Cyflwyniad seminar unigol (25 munud)

Cyflwynwch ddyluniad eich prosiect ymchwil ar raddfa fach, cynigiwch gyfiawnhad beirniadol dros eich dewisiadau methodolegol, yr offer ymchwil a ddefnyddiwyd a'r prosesau moesegol a ddilynwyd. Dylech hefyd gynnwys amlinelliad o'r dull arfaethedig ar gyfer dadansoddi data.

Elfen Asesu 2 – 75%

DYDDIAD TERFYN: 20-07-20

Adroddiad ymchwil ysgrifenedig (12000 o eiriau)

Cyflwynwch adroddiad ymchwil ar eich prosiect ymchwil ar raddfa fach; dylai'r adroddiad gynnwys adolygiad llenyddiaeth, cyfiawnhad o'r fethodoleg a'r offer ymchwil a ddefnyddiwyd, disgrifiad o'r dull a dadansoddiad data, canfyddiadau, trafodaeth feirniadol o oblygiadau'r canfyddiadau o ran arfer neu ymchwil yn y dyfodol a gwerthusiad o'r broses ymchwil.

DARLLEN ALLWEDDOL:

e.e.

Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Cohen, L. Manion, L. and Morrison, K. (2013 or 2011) <i>Research Methods in Education, 8th or 7th editions</i> London: Routledge. Arg. 2017 ar gael ar DawsonBks	☐
Hanfodol	Flick, U. (2014) <i>An Introduction to Qualitative Research</i> , London: SAGE.	☐
Hanfodol	Gray, D.E. (2018) <i>Doing Real World Research</i> , London: SAGE.	☐
Pellach	Punch, K.F. (2009) <i>Introduction to Research Methods in Education</i> . London: SAGE.	☐
Pellach	Aubrey, K. & Riley, A. (2017) <i>Understanding and Using Challenging Education Theories</i> , London: SAGE.	☐
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i> , London: Sage.	☐
Pellach	Arthur, J. (Ed.). (2012). <i>Research methods and methodologies in education</i> . Sage publications.	☐
Pellach	Baxter, P., & Jack, S. (2008). Qualitative case study methodology: Study design and implementation for novice researchers. <i>The qualitative report</i> , 13(4), 544-559. Ar gael yn ddirwysr ar-lein.	☒
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds), (2011) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd. 2017 ed. Ar gael gan DawsonBks	☐
Pellach	Gorard, S. (2010). <i>Quantitative methods in educational research: The role of numbers made easy</i> . London: Bloomsbury Publishing.	☐
Pellach	Israel, M (2014) <i>Research Ethics and Integrity for Social Scientists: Beyond Regulatory Compliance</i> , Washington: Sage.	☐
Pellach	Lewis, V., Kellett, M., Robinson, C., Fraser, S. & Ding, S., (2006) <i>The Reality of Research with Children</i> .	☐
Pellach	Mauthner, M. L., Birch, M., Jessop, J. & Miller, T. (eds), (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	May, T. & Perry, B. (2011) <i>Social Research and Reflexivity: Content, Consequence and Context</i> , London: Sage Publication Ltd.	☐
Pellach	Salkind, N. J., (2010) <i>Statistics for People Who (Think They) Hate Statistics</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐

Pellach	Thomas, G. (2013). <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i> . London: Sage.	☐
Pellach	Wellington, Jerry (2015) <i>Educational research: contemporary issues and practical approaches</i> . London: Bloomsbury	☐
Bydd y cyfnodolion isod, yn ogystal â rhai eraill yn y llyfrgell, yn ffynhonnell ddarllen werthfawr i chi.		
Hanfodol	Cyfnodolyn: British Educational Research Journal	☐
Pellach	Cyfnodolyn: British Journal of Educational Studies	☒
Pellach	Cyfnodolyn: Educational Action Research	☐
Pellach	Cyfnodolyn: International Journal of Action Research	☐
Pellach	Cyfnodolyn: International Journal of Research and Method in Education	☐
Pellach	Cyfnodolyn: Journal of Educational Research	☐
Pellach	Cyfnodolyn: Cylchgrawn Addysg Cymru	☐
Bydd y gwefannau isod, yn ogystal â rhai eraill, yn ffynhonnell ddarllen werthfawr i chi.		
Hanfodol	Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain. Cyrchwyd yn: http://www.bera.ac.uk/	☒
Hanfodol	British Educational Research Association. (2011). <i>BERA Ethical Guidelines for Educational Research</i> . BERA. Cyrchwyd yn: https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2014/02/BERA-Ethical-Guidelines-2011.pdf?noredirect=1	☒
Pellach	Comisiwn Hawliau Anabledd. Cyrchwyd yn: http://www.drc-gb.org/	☒
Pellach	Comisiwn Cyfle Cyfartal. Cyrchwyd yn: http://www.eoc.org.uk/	☒
Pellach	Cynulliad Cenedlaethol Cymru/Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd yn: http://www.wales.gov.uk/	☒
Pellach	Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus. Cyrchwyd yn: http://www.opsi.gov.uk/	☒

Argymhellir eich bod yn ail-ddarllen y testun isod er mwyn ymglyfarwyddo â damcaniaeth arloesol a ddefnyddir yn aml i fframio ymchwil addysg:

Aubrey, K. & Riley, A. (2017) *Understanding and Using Challenging Education Theories*, London: SAGE.

- Pen.1 Maslow
- Pen. 6 Bourdieu
- Pen. 7 Foucault
- Pen. 8 Noddings
- Pen. 9 Stenhouse
- Pen. 14 Mezirow

Mae'r testunau isod ar gyfer offer ymchwil penodol; byddant yn fwy defnyddiol wrth i chi symud ymlaen gyda'ch astudiaethau doethurol ac fe'u rhestrir yma er gwybodaeth. Efallai y dymunwch eu darllen os ydynt yn berthnasol i'r dyluniad(au) ymchwil o'ch dewis.

Pellach	Creswell, J. W. (2012). <i>Qualitative inquiry and research design: Choosing among five approaches</i> . Sage.
Pellach	McNiff, J. (2013). <i>Action research: Principles and practice</i> . Routledge.
Pellach	Field, A. (2016). <i>An Adventure in Statistics: The Reality Enigma</i> . SAGE.
Pellach	Fink, A., (2003) <i>How to Ask Survey Questions</i> , London: Sage.
Pellach	Fink, A. (2017) <i>How to conduct surveys: a step by step guide</i> . Sage.
Pellach	McKernan, J., & McKernan, J. (2013). <i>Curriculum action research: A handbook of methods and resources for the reflective practitioner</i> . Routledge.
Pellach	Yin, R. K. (2013). <i>Case study research: Design and methods</i> . London: Sage.